Gwirionedd

O Arglwydd rho inni lygaid gwan ar gyfer pethau dibwys a llygaid clir ar gyfer dy holl wirionedd di. Amen.

Søren Kierkegaard

EMYNAU

Yng Nghrist cyfunir cyfiawnder, tangnefedd, trugaredd a gwirionedd:

Trugaredd a gwirionedd
yng Nghrist sy nawr yn un,
cyfiawnder a thangnefedd
ynghyd am gadw dyn:
am Grist a'i ddioddefiadau,
rhinweddau marwol glwy',
y seinir pêr ganiadau
i dragwyddoldeb mwy.

Roger Edwards (*Caneuon Ffydd*: 331)

Arwain ni i droedio dy ffordd di; y ffordd anghymharol:

O Iesu, y ffordd ddigyfnewid
a gobaith pererin di-hedd,
O tyn ni yn gadarn hyd atat
i ymyl diogelwch dy wedd;
dilea ein serch at y llwybrau
a'n gwnaeth yn siomedig a blin,
ac arwain ein henaid i'th geisio,
y ffordd anghymharol ei rhin.

W. Rhys Nicholas (*Caneuon Ffydd*: 342)

Nid moethusrwydd yw ein nod ond calon lân a gonest:

Nid wy'n gofyn bywyd moethus,
aur y byd na'i berlau mân,
gofyn 'rwyf am galon hapus,
calon onest, calon lân.

Gwyrosydd (*Caneuon Ffydd*: 780)

Iesu yw'r un sy'n gallu'n codi a'n harwain trwy'r dyrys anialwch:

Arglwydd, arwain drwy'r anialwch
fi, bererin gwael ei wedd,
nad oes ynof nerth na bywyd,
fel yn gorwedd yn y bedd:
hollalluog
ydyw'r Un a'm cwyd i'r lan.

William Williams (*Caneuon Ffydd*: 702)

Ni all y byd ein bodloni bellach. Digon yw syllu ar ei Berson a chodi'r groes:

Ni ddichon byd a'i holl deganau
fodloni fy serchiadau nawr,
a enillwyd, a ehangwyd
yn nydd nerth fy Iesu mawr;
ef, nid llai, a all eu llenwi
er mor ddiamgyffred yw,
O am syllu ar ei Berson,
fel y mae yn ddyn a Duw.

Ann Griffiths (*Caneuon Ffydd*: 722)

Iesu sy'n galw ac mae'n awyddus i roi bywyd amgenach i ni:

Mi glywais lais yr Iesu'n dweud,
"Tyrd ataf fi yn awr,
flinderog un, cei ar fy mron
roi pwys dy ben i lawr."

Mi ddeuthum at yr Iesu cu
yn llwythog, dan fy nghlwyf;
gorffwysfa gefais ynddo ef
a dedwydd, dedwydd wyf.

Horatius Bonar *cyf. Y Caniedydd Cynulleidfaol Newydd* (*Caneuon Ffydd*: 774)

GWEDDÏAU

O Dduw rwyt ti wedi dangos dy hun i ni er mwyn i ni rodio yn y gwirionedd:

Clodforwn di, 'y digelwyddog Dduw', am fod 'd'eiriau di yn wir'. 'Gwir yw gair yr Arglwydd,' ac nid oes ansicrwydd yn perthyn i ti. 'Y mae dy holl orchymynion yn wirionedd,' ac 'yr wyt yn dymuno gwirionedd oddi mewn.' 'O! Arglwydd, dysg i mi dy ffordd, i mi rodio yn dy wirionedd; rho i mi galon gywir i ofni dy enw'. 'Arglwydd, pwy a gaiff aros yn dy babell? Pwy a gaiff fyw yn dy fynydd sanctaidd? Yr un sy'n byw'n gywir, yn gwneud cyfiawnder, ac yn dweud gwir yn ei galon.' Amen.

Peter Davies

Cadw ni a'n hetifeddiaeth yn lân a dilychwin:

O! Arglwydd ein Duw, yr hwn wyt gyfiawn a sanctaidd, ac a geisi gariad a gwirionedd oddi mewn, llanw ninnau â'r pethau hyn, gan ein nerthu i ymwrthod â phob cymhelliad hunanol. Symud ymaith o'n bywyd, ac o fywyd ein gwlad, bob anonestrwydd a thwyll. Cadw'r cyfoethog a'r breintiedig rhag anwybyddu anghenion y gwan a'r tlawd. Bydd di, Arglwydd, yn swcwr i bob person diamddiffyn. Bydded i egwyddorion dy deyrnas fod yn rhan o holl weithrediadau ein llywodraeth, a holl arferion y farchnad ariannol. Amen.

Dewi Roberts

Ymhyfrydwn yn y bywyd uniawn a cherddwn y ffordd honno gydol ein bywydau:

Gad inni brofi o'r newydd flas gorfoledd y bywyd uniawn. Tywallt dy oleuni a'th wirionedd i'n calon fel y rhodiwn dy lwybrau di holl ddyddiau ein bywyd, ac y cawn ein dwyn yn ddiogel i'th drigfan sanctaidd. Amen.

Dewi Roberts

Cod ni uwchlaw difrïo eraill i wynebu 'llawenydd yr olaf yn gyntaf a'r cyntaf yn olaf':

Tro ni, O Dduw,
pan demtir ni i wawdio'n gilydd,
pan chwarddwn am obeithion a breuddwydion un arall,
pan dorrwn y gorsen ysig neu pan ddiffoddwn y fflam wan.
Tro ni, O Dduw,
nes inni wybod llawenydd yr olaf yn dod yn gyntaf, a'r cyntaf yn olaf,
nes inni brofi'r gwirionedd
bod y rheiny sy'n colli eu bywyd er mwyn yr Efengyl yn ei gael ef. Amen.

Cyngor Eglwysi'r Byd

O gadw at y gwirioneddau bydd y fuddugoliaeth yn eiddo i ni:

Daioni sy'n gryfach na drygioni;
Cariad sy'n gryfach na chasineb;
Goleuni sy'n gryfach na thywyllwch;
Bywyd sy'n gryfach na marwolaeth;
Ni biau'r fuddugoliaeth drwyddo ef sy'n ein caru. Amen.

Desmond Tutu

ADNODAU

Dau beth mae'r Salmydd yn eu chwennych – goleuni a gwirionedd:

Anfon dy oleuni a'th wirionedd,
bydded iddynt fy arwain,
bydded iddynt fy nwyn i'th fynydd sanctaidd
ac i'th drigfan.

Salm 43: 3

Arwain a dysg fi ar hyd y ffordd er mwyn i mi gael byw yn y gwirionedd:

O ARGLWYDD, dysg i mi dy ffordd,
imi rodio yn dy wirionedd;
rho imi galon unplyg i ofni dy enw.

Salm 86: 11

Yn yr ymgnawdoliad daeth y Gair, a oedd yn y dechreuad, i breswylio ymhlith pobl yn llawn gras a gwirionedd:

A daeth y Gair yn gnawd a phreswylio yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.

Ioan 1: 14

Cafodd Thomas ateb triphlyg i'w gwestiwn – y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd:

Dywedodd Iesu wrtho, "Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd. Nid yw neb yn dod at y Tad ond trwof fi."

Ioan 14: 6

Pan ddaw tywalltiad o'r Ysbryd bydd hwn yn eich arwain i ddeall y gwirionedd:

Ond pan ddaw ef, Ysbryd y Gwirionedd, fe'ch arwain chwi yn yr holl wirionedd. Oherwydd nid ohono'i hun y bydd yn llefaru; ond yr hyn a glyw y bydd yn ei lefaru, a'r hyn sy'n dod y bydd yn ei fynegi i chwi.

Ioan 16: 13

Yn Iesu roedd rhyw wirionedd oedd yn parhau yn gryn ddirgelwch i Pilat:

Meddai Pilat wrtho, "Beth yw gwirionedd?"
Wedi iddo ddweud hyn, daeth allan eto at yr Iddewon ac meddai wrthynt, "Nid wyf fi'n cael unrhyw achos yn ei erbyn."

Ioan 18: 38

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Pan ofynnodd Pilat ei gwestiwn i Iesu, 'Beth yw gwirionedd?' fe sylweddolodd am y tro cyntaf cymaint yr oedd wedi ei golli. Pwy a ŵyr nad oedd Pilat, o fod yng nghwmni Iesu, wedi gweld a theimlo'r gwirionedd. Ond doedd ganddo mo'r dewrder i sefyll ac ochri gydag Iesu. A chollodd ei gyfle am byth.

Nid map a chwmpawd mae Iesu'n roi i'w ddisgyblion, ond ei bresenoldeb. Er na fyddai'r disgyblion yn ei weld mwyach fe fyddai Iesu gyda nhw ar y daith.

Dydi Cristnogion ddim yn cael atebion clir a phendant i'w cwestiynau bob amser – er bod rhai yn credu mai felly y mae hi. Ceisiwch y gwirionedd, a gochelwch y rhai sydd bob amser yn iawn ac yn siŵr o'u pethau.

Mewn Cristnogaeth, nid chwilio am wirionedd y mae dyn, ond credu iddo eisoes ei gael. Nid dyn sy'n chwilio am Dduw, ond pechadur yn credu i Dduw chwilio amdano ef a'i gael.

J. E. Daniel

Plant gwirionedd yw hen ddiarhebion.

Nid hawdd gwybod y cyfan
nid hawdd amau gwirionedd
nid hawdd cadarnhau celwydd.